Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot a Phowys

**Heol Dŵr-y-Felin**
**Castell-nedd**
**SA10 7RF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol o ran fformat i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot a Phowys

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot a Phowys |
| Awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r darparwr a phartneriaid cyflwyno allweddol | Mae aelodaeth graidd y bartneriaeth yn cynnwys Grŵp Colegau NPTC (cadeirydd presennol y bartneriaeth), Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CNPT) (a'i gangen gyflwyno, sef Dysgu Oedolion CNPT) a Chyngor Sir Powys.<br><br>Mae Addysg Oedolion Cymru hefyd yn cyfrannu fel aelod 'craidd a mwy' ac yn darparu mwy o raglenni a gweithgareddau ar draws cymunedau Castell-nedd Port Talbot a Phowys. |
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf | Ers yr arolygiad diwethaf yn 2012, mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ar wahân Castell-nedd Port Talbot a Phowys wedi cyfuno i ffurfio'r bartneriaeth hon. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn ei ffurf bresennol er 2021. |
| Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad | Ar draws pob darparwr, yn cynnwys dysgwyr SSIE, roedd 4,046 o ddysgwyr adeg yr arolygiad. |
| Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn flaenorol | Yn y flwyddyn academaidd 2022-23, cyfanswm dysgwyr y bartneriaeth oedd 4,313. |
| Manylion am raglenni'r bartneriaeth, o ran cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (SSIE) a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau) | Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod o raglenni a ariennir gan Grant Dysgu yn y Gymuned Llywodraeth Cymru, cyllid addysg bellach Llywodraeth Cymru, a chyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin a menter Lluosi Llywodraeth y Deyrnas Unedig.<br><br>Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys rhaglenni llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol ar gyfer oedolion, rhaglenni mathemateg a Saesneg TGAU, Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), Iaith Arwyddion Prydain (BSL), rhaglenni i ddatblygu cyflogadwyedd dysgwyr, |

| | |
|---|---|
| | cyrsiau galwedigaethol rhagarweiniol ac ystod o gyrsiau i hyrwyddo ymgysylltu, lles ac iechyd meddwl. |
| Ynglŷn â'r dysgwyr ar gyrsiau'r bartneriaeth | O ddata'r bartneriaeth ei hun, mae 29% o ddysgwyr y bartneriaeth rhwng 25 a 39 oed, gyda chyfanswm o 77% rhwng 20 a 64 oed. Mae 11% o ddysgwyr y bartneriaeth yn 65 oed ac yn hŷn.<br><br>Disgrifiodd 13% o ddysgwyr y bartneriaeth eu hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl neu siaradwyr Cymraeg ond ddim yn rhugl. |
| Ynglŷn â phoblogaeth ardal y bartneriaeth | Mae gan Fwrdeistref Castell-nedd Port Talbot boblogaeth o 141,900, tua 4.5% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae Sir Powys yn cwmpasu chwarter tirfas Cymru, ac mae ganddi boblogaeth o 133,500, tua 4.3% o gyfanswm poblogaeth Cymru (Nomis, 2021).<br><br>Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, sef 21.5%. Ym Mhowys, mae cyfran y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn ychydig yn uwch, sef 28.2% (StatsCymru, 2023).<br><br>Yn 2022-2023, roedd 13% o oedolion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gallu siarad Cymraeg, yn erbyn y cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol, sef 18%. Ym Mhowys, roedd 14% o oedolion yn gallu siarad Cymraeg (StatsCymru, 2023).<br><br>Castell-nedd Port Talbot yw'r 8fed ardal awdurdod lleol fwyaf difreintiedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC 2014). Mae Powys yn yr 21ain safle o 22 ardal MALIC yng Nghymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2024 |

## Crynodeb

Mae hon yn bartneriaeth effeithiol, sy'n cynnig ystod eang a thra ystyriol o ddarpariaeth, ar y cyfan, lle mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan y bartneriaeth arweinyddiaeth bwrpasol, ac mae pob partner yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau'n dda. Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn diffinio'r berthynas rhwng y ddau awdurdod lleol, Powys a Chastell-nedd Port Talbot, a'r partner cyflwyno arweiniol, sef Grŵp Colegau NPTC. Mae Addysg Oedolion Cymru hefyd yn chwarae rôl arwyddocaol mewn cyflwyno a chynllunio darpariaeth ar draws y bartneriaeth.

Nod ystod cyrsiau'r bartneriaeth yw diwallu anghenion dysgwyr a darpar ddysgwyr y bartneriaeth. Mae'r cynnig yn canolbwyntio'n addas ar feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fel medrau rhifedd, llythrennedd a digidol. Mae hefyd yn cynnwys llwybrau mynediad defnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion i ddysgu galwedigaethol, fel weldio, plastro, arlwyo, garddwriaeth neu ofal plant. Mae ganddi ystod o gyrsiau rhan-amser mewn Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), y mae rhaglenni SSIE amser llawn wedi ychwanegu atynt yn ddiweddar.

Mae'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi lles ac iechyd meddwl dysgwyr, fel therapi celf, neu ddosbarthiadau sgwrsio anffurfiol, fel 'chai and chat'. Mae'r rhain yn llwybrau ymgysylltu effeithiol i ddod â dysgwyr i'r ddarpariaeth a'u hannog i fynd ymlaen i ddysgu mwy ffurfiol.

Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno dysgu mewn llawer o leoliadau priodol ar draws Castell-nedd Port Talbot a rhannau o Bowys, ond nid yw'n cynnig dosbarthiadau wyneb yn wyneb mewn rhai ardaloedd o Bowys, yn enwedig yng ngogledd orllewin y sir. Nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, sy'n golygu nad yw dysgwyr na chymunedau sy'n siarad Cymraeg yn cael cyfle i elwa ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned yn Gymraeg.

Mae partneriaid wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael trwy fenter Lluosi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu ystod o ddarpariaeth newydd i ymgysylltu â dysgwyr a datblygu medrau rhifedd. Mae partneriaid wedi gweithio'n dda i gydlynu eu cynnig trwy Lluosi, ond maent yn wynebu heriau wrth recriwtio dysgwyr o fewn y graddfeydd amser byr sydd ar gael.

Mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn dangos synnwyr clir o ddiben moesol am rôl dysgu oedolion yn y gymuned ac yn gweithio'n bwrpasol tuag at weledigaeth y bartneriaeth. Ceir diwylliant nodedig ymhlith staff y bartneriaeth i gynllunio dysgu'n hyblyg i addasu cyrsiau a rhaglenni dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr a bodloni eu hamgylchiadau unigol.

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn frwdfrydig a gwybodus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod eang o strategaethau, ac yn addasu gweithgareddau'n effeithiol i gymell dysgwyr, gweddu i'w galluoedd ac ennyn eu diddordeb. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau SSIE, mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod

gyfyngedig o ddulliau a deunyddiau, ac o ganlyniad, mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd araf iawn.

Mae dysgwyr yn mwynhau eu rhaglenni, yn cymryd rhan yn dda, ac yn disgrifio'r effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hiechyd meddwl, yn ogystal â gwelliannau yn eu medrau a'u hyder. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn, yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau'n dda, ac yn cymhwyso'u dysgu i'w bywydau ehangach. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u medrau sy'n datblygu yn eu gwaith neu mewn sefyllfaoedd cymunedol, neu drwy allu helpu eu plant eu hunain yn fwy â'u gwaith ysgol.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus ar gyfraddau cadarn, ond mewn ychydig o feysydd, fel SSIE, cyrsiau mathemateg a Saesneg TGAU, ac o raglenni TG ym Mhowys, mae cyfraddau dysgwyr yn rhoi'r gorau i'w rhaglenni yn uchel.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

- A1 Gwella'r mynediad at ddarpariaeth ar draws ystod ddaearyddol lawn y bartneriaeth
- A2 Gwella cyfraddau cadw ar gyrsiau lle mae cyfradd uchel o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i'w rhaglenni
- A3 Gwella cynllunio ac addysgu darpariaeth SSIE i sicrhau bod yr addysgu yn gyson effeithiol, adnoddau'n ddifyr ac yn berthnasol a bod deilliannau dysgwyr yn dangos gwelliant mesuradwy

## Beth sy'n digwydd nesaf

Nid yw'r bartneriaeth mewn categori gweithgarwch dilynol. Yn unol ag adran 80 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, bydd y bartneriaeth yn paratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i gynllun gweithredu yn sgil yr adroddiad arolygu. Byddwn yn ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hymweliadau rheolaidd gan arolygwyr cyswllt.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Ar draws y bartneriaeth, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mewn cyflwyniad i sesiwn weldio, gall dysgwyr nawr wneud gwahanol fathau o gymalau i drwsio rhannau o'r corff ar feiciau modur a cheir. Mewn dosbarth celf ar gyfer iechyd meddwl, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau yn sylweddol, a phob un ohonynt yn cwblhau gweithgaredd estynedig ar gelf blwch i greu ac arddangos cynnyrch gorffenedig. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau SSIE, mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod gyfyngedig o ddulliau a deunyddiau, ac o ganlyniad, mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd araf iawn.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio medrau sy'n briodol i'w lefel, ac ychydig ohonynt yn gweithio ar lefel uwch, ac yn cynhyrchu gwaith sydd o safon dda. Mae dysgwyr mewn sesiwn ffeltio â nodwydd yn creu anifeiliaid 3D a chelf ffelt nodwydd o ansawdd uchel o brintiau, fel blodau gwyllt. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn sesiwn medrau hanfodol yn defnyddio'u medrau llythrennedd ac astudio yn dda i'w galluogi i symud ymlaen â thasgau yn annibynnol.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso technegau priodol a medrau effeithiol o ran datrys problemau. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn gwers medrau sylfaenol yn delio â geirfa anghyfarwydd trwy dorri'r gair i lawr yn sillafau, sy'n eu galluogi i weithio tuag at ynganiad cywir. Mae'r dysgwyr hyn hefyd yn esbonio'n hyderus sut maent yn defnyddio geiriaduron print i chwilio am ystyr geiriau newydd. Mewn codio creadigol, mae dysgwyr yn mynd i'r afael â thasgau codio cymhleth ac yn dadansoddi materion ar y cyd i ddod o hyd i atebion.

Mewn llawer o sesiynau, mae dysgwyr yn cymhwyso'u dysgu yn ystyrlon i sefyllfaoedd bywyd go iawn. Er enghraifft, mewn sesiynau Lluosi i ddatblygu rhifedd, mae dysgwyr yn cyfrifo canrannau ar gyfer siopa â gostyngiad neu'n dysgu sut i gynorthwyo'u plant â mathemateg gartref. Mae dysgwyr ar gyrsiau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn defnyddio'u medrau a gaffaelwyd yn ddiweddar yn hyderus i gynorthwyo aelodau o'r teulu a chyd-ddysgwyr sydd â namau ar y clyw.

Mae llawer o ddysgwyr yn myfyrio ar eu dysgu blaenorol ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddysgu cyfredol yn dda. Mae dysgwyr mewn dosbarth ysgrifennu creadigol yn gwerthfawrogi'r broses ysgrifennu a'r cynnyrch gorffenedig, gan gydnabod pwysigrwydd y ddwy agwedd. Mewn gwers gofal plant lefel 2, mae dysgwyr yn myfyrio ar eu hatebion mewn prawf diweddar, yn nodi cwestiynau a gawsant yn anghywir, ac yn datblygu cardiau adolygu â ffocws i'w cynorthwyo wrth fynd i'r afael â'u camgymeriadau.

Pan fydd cyfleoedd yn codi, mae dysgwyr yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn gwers medrau hanfodol yn defnyddio pren mesur yn gywir gyda chymorth eu hathro i fesur a chynllunio gofod gardd. Mewn sesiwn medrau digidol ar gyfer SSIE, mae dysgwyr yn defnyddio platfformau digidol i gael mynediad at wefannau Saesneg, y maent yn eu hadolygu'n ddiweddarach mewn templed a grewyd ganddyn nhw.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol. Ar gwrs BSL, mae dysgwyr yn dangos mwynhad clir yn eu dysgu, yn gwrando'n astud, yn ymarfer eu medrau, ac yn rhannu hiwmor ac yn cefnogi ei gilydd. Mae'r dysgwyr hyn yn dangos hunangymhelliant, ar ôl ymuno â'r grŵp am resymau amrywiol, yn cynnwys addysgu BSL mewn grŵp ieuenctid neu ymdopi â dirywiad yn eu clyw.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae dysgu cyfoedion yn nodwedd gref yn y bartneriaeth.

**Sbotolau ar ddysgu cyfoedion**

Mae dysgu cyfoedion ar draws y bartneriaeth yn hynod effeithiol o ran creu ysbryd cydweithredol. Mae dysgwyr yn ymgysylltu'n dda mewn gweithgareddau fel marcio cyfoedion, trafod, addysgu a chymorth.

Er enghraifft, mewn dosbarth codio creadigol, mae dysgwr mwy profiadol yn arwain arddangosiad ar weithgareddau codio, yn gwahodd cwestiynau gan gyfoedion, sy'n ymateb yn gadarnhaol ac yn annog ei gilydd i gwblhau'r dasg. Mewn sesiwn cyflwyniad i weldio, mae dysgwyr profiadol yn cynorthwyo cyfoedion â phroblemau yn ymwneud â deunyddiau neu offer, gan greu ysbryd cydweithredol a chyfleoedd dysgu cyfoedion o fewn y dosbarth.

Mae'r dull hwn yn hyrwyddo cyfranogiad gweithredol a rhyngweithio cymdeithasol. Mae dysgu cyfoedion yn cefnogi cynnydd ac yn ymestyn profiad y dysgwr ar draws y bartneriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws ystod o raglenni yn gwybod beth yw eu camau nesaf, ac yn gosod nodau heriol iddyn nhw eu hunain yn aml. Er enghraifft, mae gweithiwr meddygol proffesiynol mewn grŵp SSIE sydd wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig yn ddiweddar wedi'i gymell i ddatblygu ei fedrau Saesneg yn ei ymdrech i ddychwelyd i'w broffesiwn yn y wlad hon. Mewn grŵp rhifedd medrau hanfodol, mae dysgwyr yn gwella'u mathemateg, yn aml o sylfaen isel iawn, er mwyn cofrestru ar hyfforddiant pellach mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, troseddeg a gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol. Mae dysgwyr ar gwrs pobi yn dangos diddordeb brwd mewn datblygu i lefelau uwch cyrsiau pellach, yn aml i gefnogi busnes teuluol neu ar gyfer dilyniant gyrfa.

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn frwdfrydig a gwybodus. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o fethodolegau addysgu oedolion, ac yn eu cymhwyso'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn dylunio cynlluniau gwaith cydlynus a sesiynau pwrpasol. Mae tiwtoriaid mathemateg TGAU yn y coleg yn datblygu a rhannu cynlluniau gwaith ac adnoddau cyffredin, sy'n cynorthwyo tiwtoriaid a dysgwyr ar draws y bartneriaeth, tra bod tiwtoriaid ar gyfer rhaglen Ffynnu wedi creu cynlluniau gwaith dychmygus ac arloesol ar gyfer dysgwyr bregus.

Mae tiwtoriaid yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol â dysgwyr. Maent yn deall anghenion unigol dysgwyr yn dda, ac yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cynllunio'n ofalus i sicrhau her a dilyniant mewn dysgu. Yn yr ystafell ddosbarth, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o strategaethau, ac

yn addasu gweithgareddau'n effeithiol i gymell dysgwyr, gweddu i'w galluoedd ac ennyn eu diddordeb.

**Sbotolau ar ddysgu teuluol**

Mewn sesiynau dysgu teuluol, mae tiwtoriaid yn helpu oedolion yn fedrus i ddeall sut mae eu plant yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Mae tiwtoriaid yn nodweddiadol yn dechrau trwy esbonio i oedolion am dechnegau ar gyfer helpu eu plant, fel defnyddio ffoneg i seinio geiriau ar goedd a darllen geiriau neu ddatblygu ffyrdd o'u hannog i ddyfalbarhau â phroblemau y maent yn eu gweld yn anodd. Yn ail ran y sesiwn, mae'r plant yn ymuno â'r oedolion, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd. Mae oedolion a phlant yn mwynhau'r amser gwerthfawr a gânt gyda'i gilydd: yr oedolion, yn sgil datblygu mewnwelediadau i'r cwricwlwm a sut mae eu plant yn dysgu, ac o gyfarfod a chymdeithasu ag oedolion eraill y mae eu plant yn yr ysgol; a'r plant o gael amser â ffocws gyda'u rhieni / gofalwyr a gweithio mewn grwpiau bach. Yn aml, caiff yr oedolion eu cymell i gymryd rhan mewn cyrsiau am agweddau eraill ar y cwricwlwm, neu ymestyn eu haddysg eu hunain.

Mewn ychydig o sesiynau SSIE, mae tiwtoriaid yn defnyddio taflenni gwaith yn rhy aml. Nid ydynt yn defnyddio digon o ddeunyddiau dilys a chyfoes ac nid yw hi bob amser yn glir sut mae un testun yn cysylltu'n gydlynus ag un arall, sy'n effeithio ar ddilyniant mewn dysgu.

Mewn dysgu teuluol, mae tiwtoriaid yn defnyddio termau ac ymadroddion Cymraeg ar gyfer cyfarwyddiadau ac anogaeth. Mewn ychydig o sesiynau, fel coginio ar gyllideb, mae tiwtoriaid yn cyflwyno dysgwyr i'r eirfa Gymraeg am gynhwysion. Fodd bynnag, mewn llawer o sesiynau eraill, ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r Gymraeg neu gyfeiriad at derminoleg ddwyieithog, neu ddefnyddioldeb y Gymraeg fel medr.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar yn ystod sesiynau addysgu. Maent yn gofyn cwestiynau ac yn gwneud awgrymiadau i helpu arwain y dysgwr at ei gamau nesaf. At ei gilydd, defnyddir cynlluniau dysgu unigol (CDUau) yn briodol ar draws y bartneriaeth.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus ar gyfraddau cadarn, ond mewn ychydig o feysydd, fel SSIE, cyrsiau mathemateg a Saesneg TGAU, a rhaglenni TG ym Mhowys, mae cyfraddau dysgwyr yn rhoi'r gorau i'w rhaglenni yn uchel.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai'r bartneriaeth ganolbwyntio ar y canlynol:

- cysondeb o ran cyflwyno SSIE, yn cynnwys cydlyniant cynllunio a defnyddio adnoddau dilys a chyfoes
- y gyfradd y mae dysgwyr yn rhoi'r gorau i ddilyn cyrsiau SSIE a mathemateg a Saesneg TGAU, a rhaglenni TG ym Mhowys
- defnyddio'r Gymraeg mewn sesiynau

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r bartneriaeth yn effeithiol o ran ymgysylltu â dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth, ac sydd, am amrywiaeth o resymau, yn anos i ennyn eu diddordeb mewn

dysgu. Mae nifer sylweddol o ddysgwyr ag anghenion cymorth mewn amrywiaeth eang o ddosbarthiadau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn werthfawrogol o ymdrechion eu tiwtoriaid i ymgysylltu â nhw, a'u cynorthwyo â'u dysgu. Mae tiwtoriaid yn ymroi i gynorthwyo dysgwyr ac yn benderfynol o ddod o hyd i atebion i'r hyn sy'n rhwystro dysgwyr rhag dysgu. Maent yn helpu dysgwyr i ddatblygu hyder, hunan-barch a hunan-gred.

Mae'r berthynas gref rhwng aelodau'r bartneriaeth yn golygu y gallant fanteisio ar gryfderau a meysydd arbenigedd ei gilydd i ddarparu ystod eang o gymorth ar gyfer dysgwyr. Mewn un enghraifft, datblygwyd deunyddiau defnyddiol gan un darparwr i roi cymorth â phrofedigaeth, a'u rhannu ar draws y bartneriaeth i helpu tiwtoriaid i gynorthwyo dysgwyr neu aelodau staff eraill sydd wedi cael profedigaeth.

Mewn llawer o ddosbarthiadau a grwpiau, ceir ymdeimlad cryf o gymuned ddysgu, lle mae dysgwyr yn cynorthwyo'i gilydd ac yn cael hwyl wrth iddynt ddysgu. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau BSL, mae dysgwyr yn chwerthin yn aml wrth iddynt ymarfer eu symudiadau â llaw a mynegiannau'r wyneb. Mae'r dysgwyr hyn a'r tiwtor yn defnyddio'u harwyddion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth er budd pobl eraill, er enghraifft i dawelu pobl ifanc mewn ysgol, mewn sefyllfaoedd cymorth cyntaf brys, i ychwanegu at eu medrau fel rhiant maethu neu raeadru eu medrau mewn grŵp ieuenctid.

Mae presenoldeb mewn dosbarthiadau ar draws y bartneriaeth yn amrywiol, ac yn isel mewn ychydig o raglenni, ond mae tiwtoriaid fel arfer yn ymwybodol o'r rhesymau am absenoldebau, fel arholiadau, gwyliau, a salwch. Maent yn lliniaru'r effaith ar ddysgu trwy rannu adnoddau a deunyddiau ar-lein. Fodd bynnag, ar ychydig o gyrsiau ym meysydd rhaglen SSIE, ailsefyll cyrsiau TGAU, a TG ym Mhowys, mae cyfradd y dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i'w rhaglenni yn uchel.

Ceir llawer o enghreifftiau o sut mae dysgwyr yn trosglwyddo buddion eu profiadau dysgu i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, erbyn hyn, mae dysgwyr sydd wedi cael eu cynorthwyo trwy eu problemau iechyd meddwl yn cael eu cymell yn eu tro i wirfoddoli i helpu pobl ifanc neu ddysgwyr eraill â phroblemau tebyg.

**Sbotolau ar brosiect Ffynnu**

Mae prosiect Ffynnu yn cefnogi menywod sydd mewn sefyllfaoedd dan anfantais ddwys i ddatblygu i fod yn unigolion mwy hyderus. Mae'r prosiect nid yn unig yn galluogi menywod ynysig o fewn yr ardal a'r tu hwnt i ddod i adnabod ei gilydd, ond hefyd i ddysgu sut i fod yn hunanddibynnol, tyfu eu llysiau eu hunain a chyllidebu a choginio â chyllid ac offer cyfyngedig iawn. Maent yn dysgu sut i goginio prydau bwyd maethlon ac economaidd iddyn nhw eu hunain a'u plant. Maent yn dod i adnabod ei gilydd, yn dechrau coginio prydau cymunol a rhannu eu hadnoddau. Roedd y menywod hyn, sydd wedi dioddef cam-drin, yn aml wedi colli allan ar addysg ac wedi cael eu hynysu gan eu perthnasoedd, yn dechrau adennill hyder a hunan-barch.

Mae'r bartneriaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w chyrsiau trwy ystod ddefnyddiol o ddeunyddiau, fel taflenni mewn llyfrgelloedd, posteri a digwyddiadau hyrwyddo yng nghanol trefi, gwefan y bartneriaeth a'r cyfryngau cymdeithasol, neu drwy atgyfeiriad gan asiantaethau eraill, yn cynnwys swyddogion cyswllt ysgolion. Yn benodol, mae

dysgwyr sy’n ymgysylltu ychydig iawn ag addysg ôl-orfodol, os o gwbl, neu sydd wedi cael profiadau addysgol negyddol yn y gorffennol, yn cael eu cynorthwyo i ymgymryd â gweithgareddau a chyfleoedd dysgu newydd.

Mae rhaglenni fel ‘chai and chat’ yn ymgysylltu â dysgwyr newydd ac yn darparu cyfleoedd dilyniant i’w galluogi i ailymgysylltu ag addysg. O ganlyniad i’r cymorth cryf, mae dysgwyr yn cynyddu eu hyder, ac mae hyn yn eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod o wahanol ddosbarthiadau. Mae dysgwyr yn disgrifio’u bod wedi ‘cael eu cnoi gan y byg dysgu’, gan ddechrau ffynnu mewn dysgu mwy ffurfiol a symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Mae cymorth cryf gan diwtoriaid yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen tuag at y lefelau cymhwyster sydd eu hangen arnynt i gofrestru ar gyrsiau medrau proffesiynol neu academaidd.

Mae’r bartneriaeth yn cynnig cymorth defnyddiol ar gyfer dysgwyr SSIE, er enghraifft trwy rôl arloesol llysgennad SSIE / ffoaduriaid.

**Sbotolau ar rôl y llysgennad SSIE / ffoaduriaid**

Mae’r llysgennad SSIE / ffoaduriaid yn delio â materion dysgwyr, ac yn eirioli ar eu rhan. Mae eu rôl yn cynnwys cymryd rhan mewn sesiynau galw i mewn sydd ar gael yn ddigidol i ddysgwyr ar gampysau eraill. O ganlyniad i hyn, er enghraifft, mae’r coleg wedi sefydlu cwrs arlwyo yn benodol ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin.

Mae’r bartneriaeth yn cynorthwyo llawer o ddysgwyr ar draws y ddarpariaeth i gysylltu â’u cymunedau, datblygu cyfeillgarwch, a dysgu am ddiwylliant ei gilydd, yn cynnwys diwylliant Prydeinig a Chymreig. Mae hyn hefyd yn gwella medrau cyfathrebu dysgwyr, ac yn hyrwyddo goddefgarwch o bobl eraill, yn cynnwys y rhai â niwroamrywiaeth.

Disgrifiodd bron pob un o’r dysgwyr effeithiau cadarnhaol eu dysgu ar eu lles. Mae llawer ohonynt yn datblygu ymdeimlad o ddiben mewn bywyd o’r newydd, yn ymgymryd â gweithgareddau neu hobïau newydd, yn dysgu medrau newydd ac yn goresgyn ynysigrwydd cymdeithasol trwy wneud ffrindiau newydd.

Mae llawlyfrau dysgwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol a defnyddiol am amrywiaeth o faterion cymorth ymarferol. Gall pob dysgwr wneud cais i fenthyca gliniaduron ac offer arall.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynnig cyngor am ystod y llwybrau addysg a hyfforddiant sydd ar gael i ddysgwyr. Er bod llawer o ddysgwyr yn gallu elwa ar hyn, nid yw ychydig ohonynt yn glir am eu camau nesaf. Mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr ar gyrsiau TGAU yn derbyn gwybodaeth na sgrinio digonol cyn cyrsiau i benderfynu a yw’r dosbarth yn addas ar eu cyfer, ac yn yr achosion hyn, mae cyfradd y dysgwyr sy’n rhoi’r gorau i’w dosbarthiadau yn uchel.

Mae gan y bartneriaeth ddiwylliant diogelu cefnogol, sy’n cynnwys gweithdrefnau manwl i gydymffurfio â’r ddyletswydd Atal. Caiff dysgwyr wybodaeth ddefnyddiol yn y llawlyfr i ddysgwyr, yn cynnwys siart llif ddefnyddiol a rhestrau o enwau cyswllt a manylion am aelodau staff perthnasol. Ceir mecanwaith effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddiogelu ar draws y bartneriaeth.

Mae dogfennau diogelu yn drylwyr ac yn cael eu cyfleu'n dda i bob un o'r staff, a'r ymwelwyr. Ar gampysau'r coleg, gall swyddogion diogelu gael eu nodi'n glir gan y cynllun laniard melyn, sy'n rhoi gwybod i ddysgwyr at bwy i droi ynghylch pryderon.

Mae gan bob partner brosesau recriwtio diogel, yn cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â thiwtoriaid sy'n cynorthwyo dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

I wella ymhellach, dylai'r bartneriaeth ganolbwyntio ar y canlynol:

- gwella presenoldeb dysgwyr mewn rhaglenni lle mae'n isel
- sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o ystod lawn y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar eu camau nesaf mewn dysgu
- gwella gwybodaeth a sgrinio cyn cyrsiau ar gyfer rhaglenni mathemateg a Saesneg TGAU, i sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cwrs ac yn astudio ar y lefel gywir

## Arwain a gwella

Mae’r bartneriaeth yn elwa ar arweinyddiaeth strategol bwrpasol ac effeithiol. Mae ganddi strwythur clir o grwpiau strategol, rheoli a gweithredol, sy’n arwain ei gwaith ar bob lefel. Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn diffinio rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau’r partneriaid craidd ac mae pob partner yn deall ei rôl yn y bartneriaeth yn dda. Yn ogystal â’r cyllid y mae awdurdodau lleol Powys a Chastell-nedd Port Talbot yn ei dderbyn trwy Grant Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru, mae’r coleg yn cyfrannu cyfran o’i gyllid rhan-amser tuag at ymgysylltu â dysgwyr sy’n oedolion, ac mae hyn yn ychwanegu at ehangder darpariaeth y bartneriaeth. Mae Addysg Oedolion Cymru hefyd yn chwarae rôl sylweddol mewn cyflwyno a chynllunio darpariaeth ar draws y bartneriaeth.

**Sbotolau ar gytundebau lefel gwasanaeth**

Mae gan y bartneriaeth gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau), sy’n diffinio’r trefniadau rhwng Grŵp Colegau NPTC a’r naill a’r llall o’i ddau bartner awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Mae pob CLG yn amlinellu cyfrifoldebau’r ddwy ochr ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer arlwy’r ddarpariaeth, deilliannau disgwyliedig, sicrhau ansawdd a thalu. Mae’r cytundebau ffurfiol hyn yn sicrhau bod eglurder rhwng partneriaid a pharhad rhwng sefydliadau os bydd personél allweddol yn newid rolau neu’n ymddeol.

Caiff cyllid craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, sef y ‘grant dysgu cymunedol’, ei ddefnyddio’n wahanol ar draws Powys a CNPT. Ym Mhowys, mae’r awdurdod lleol yn dyrannu’r grant i Grŵp Colegau NPTC i fodloni’r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae’r awdurdod lleol yn cadw’r grant dysgu cymunedol cyfan, y mae’n ei ddefnyddio trwy ei gangen gyflwyno, sef Dysgu Oedolion CNPT.

O dan y rheolau cyllid, caniateir i’r coleg ddefnyddio hyd at 5% o’i gyllid rhan-amser ar gyfer ymgysylltu ar draws y ddwy sir, ac mae’r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio i ariannu datblygiad y wefan ar draws y bartneriaeth a swyddog marchnata dynodedig.

Mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn dangos synnwyr clir o ddiben moesol am rôl dysgu oedolion yn y gymuned ac yn gweithio’n bwrpasol tuag at weledigaeth y bartneriaeth.

Mae partneriaid yn ymgymryd â heriau strategol rhanbarthol, er enghraifft wrth gynllunio’r cymorth ac ailhyfforddi ar gyfer oedolion a allai fod yn ddi-waith o ganlyniad i ailffurfweddu yng ngweithfeydd dur Port Talbot.

Mae’r bartneriaeth yn cynnig ystod eang a thra ystyriol o ddarpariaeth, sydd wedi’i bwriadu i ddiwallu anghenion dysgwyr a darpar ddysgwyr y bartneriaeth. Mae’r arlwy yn canolbwyntio’n addas ar feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel medrau rhifedd, llythrennedd a digidol. Mae hefyd yn cynnwys llwybrau mynediad â ffocws da ar gyfer dysgwyr sy’n oedolion i mewn i ddysgu galwedigaethol, fel weldio, plastro, arlwyo, garddwriaeth neu ofal plant. Mae’r bartneriaeth yn cynnig darpariaeth bwrpasol i gefnogi grwpiau eithriadol o fregus ac yn ofalus i gynnal eu diogelwch a’u cyfrinachedd.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod ddefnyddiol o gyrsiau rhan-amser mewn Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Mae rhaglenni SSIE amser llawn wedi ychwanegu at hyn yn ddiweddar.

Mae'n cynnig cyrsiau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi lles ac iechyd meddwl dysgwyr, fel ffeltio, therapi celf, neu ddosbarthiadau sgwrsio anffurfiol fel 'chai and chat'. Mae'r rhain yn llwybrau ymgysylltu effeithiol i ddod â dysgwyr i'r ddarpariaeth a'u hannog i fynd ymlaen i ddysgu mwy ffurfiol.

Mae'r arlwy yn cynnwys ychydig bach o gyflwyno ar-lein y gall dysgwyr gael mynediad ato o bell, er enghraifft rhaglenni 'rhifedd yn y cartref', Saesneg TGAU, neu ystod o gyrsiau creadigol sydd ar gael fel rhan o arlwy ar-lein Cymru gyfan Addysg Oedolion Cymru, fel creu dillad neu ysgrifennu creadigol.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi datblygu gwefan newydd, sy'n galluogi dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr i bori trwy ystod lawn arlwy'r bartneriaeth.

**Sbotolau ar wefan y bartneriaeth**

Mae gan y bartneriaeth wefan a ddatblygwyd yn ddiweddar, sef – https://www.powysneathalc.co.uk – sydd fel blaen siop i ddarpariaeth y bartneriaeth. Gall dysgwyr neu ddarpar ddysgwyr bori neu chwilio am gyrsiau yn seiliedig ar deitl y cwrs neu'r categori, y darparwr neu'r lleoliad. Mae'r tudalennau chwilio wedyn yn cysylltu trwodd i brif wefan pob darparwr lle gall defnyddwyr gael gwybod mwy neu gofrestru. Mae'r safle hefyd yn cynnwys adran 'Amdanom ni' a storïau llwyddiant dysgwyr, gan roi cefndir y bartneriaeth a chyflawniadau ei dysgwyr.

Ceir diwylliant nodedig ymhlith staff y bartneriaeth o gynllunio dysgu'n hyblyg i addasu cyrsiau a rhaglenni dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr a bodloni eu hamgylchiadau unigol. Er enghraifft, mewn garddwriaeth, mae rheolwyr ac athrawon yn teilwra'r achrediad er mwyn i ddysgwyr gael yr hyn sydd ei angen arnynt o'r cwrs, yn hytrach na gofyn iddynt gyd-fynd â'r achrediad 'cynlluniedig'.

Ar hyn o bryd, nid yw'r bartneriaeth yn cynnig unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n golygu nad yw dysgwyr neu gymunedau sy'n siarad Cymraeg yn cael cyfle i elwa ar raglenni dysgu oedolion yn y gymuned yn Gymraeg.

Mae partneriaid wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael trwy fenter Lluosi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu ystod o ddarpariaeth newydd i ymgysylltu â dysgwyr a datblygu medrau rhifedd. Defnyddir hwn i ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol a darparu llwybrau mynediad ac ymgysylltu i ddysgu mwy ffurfiol, er enghraifft trwy raglenni dysgu teuluol lle mae rhieni a phlant yn dysgu gyda'i gilydd yn ysgolion eu plant. Mae partneriaid wedi gweithio'n dda i gydlynu'r ddarpariaeth y maent yn ei chynnig trwy Lluosi, ond yn wynebu heriau wrth recriwtio dysgwyr o fewn y graddfeydd amser byr sydd ar gael.

Yn ardal Castell-nedd Port Talbot, mae'r bartneriaeth yn cynnig darpariaeth mewn ystod o ganolfannau dysgu addas mewn lleoliadau cymunedol ac ar gampysau'r coleg. Ym Mhowys, cynigir darpariaeth ar gampysau'r coleg yn Y Drenewydd, Aberhonddu a'r Trallwng. Fodd bynnag, ni chynigir unrhyw ddarpariaeth wyneb yn wyneb mewn rhai ardaloedd o Bowys, er enghraifft yn y gogledd orllewin.

Mae gan y bartneriaeth broses hunanwerthuso, sy'n dwyn ystod eang o wybodaeth ynghyd o bob un o'r partneriaid craidd mewn un adroddiad hunanwerthuso a chynllun gwella ansawdd. Mae'r cynllun gwella ansawdd yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer y bartneriaeth a'r camau perthnasol sydd eu hangen i wella ansawdd. Fodd bynnag, ni roddir amlygrwydd digonol i rai materion, neu ni chânt eu cydnabod yn y cynllun gwella ansawdd, er enghraifft cynnwys darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar draws cwmpas daearyddol llawn y bartneriaeth, neu dueddiadau o ddeilliannau tanberfformio mewn ychydig o gyrsiau neu feysydd rhaglen, er enghraifft cyfradd y dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i ddilyn rhai cyrsiau SSIE, TG neu gyrsiau mathemateg a Saesneg TGAU, sy'n gymharol uchel.

Mae gan y bartneriaeth gylch ansawdd clir sy'n cynnwys arsylwadau addysgu a dysgu ar draws partneriaid ymhlith partneriaid craidd. Mae staff o bartneriaid craidd yn cynnal arsylwadau ar y cyd ac yn cwblhau hyfforddiant achrededig wrth arsylwi gwersi. Mae gan y bartneriaeth fecanweithiau ar waith i rannu arfer orau, sy'n cael eu hymgorffori yn arfer hunanwerthuso'r bartneriaeth wrth iddi aeddfedu.

Ceir prosesau cefnogol i fynd i'r afael â thanberfformio. Er enghraifft, caiff rhaglenni sy'n tanberfformio eu hadolygu gan reolwyr ansawdd a phynciau'r bartneriaeth, caiff cynlluniau gweithredu manwl eu llunio, ac adroddir am fonitro cynnydd trwy grŵp ansawdd y bartneriaeth. Adroddir yn briodol am gynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu trwy strwythurau'r bartneriaeth i'r bwrdd gweithredol.

Gall staff o bob darparwr gymryd rhan mewn ystod ddefnyddiol o ddysgu proffesiynol parhaus, yn cynnwys hyfforddiant i staff, sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr, hyfforddiant ar gyfer staff galwedigaethol i gefnogi eu proffesiynoldeb deuol a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr i ddatblygu eu harfer arwain a rheoli.

I wella ymhellach, dylai arweinwyr y bartneriaeth ganolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau bod lleoliad daearyddol y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle na chynigir darpariaeth wyneb yn wyneb, fel gogledd orllewin Powys
- sicrhau bod hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn cydnabod ac yn rhoi amlygrwydd digonol i gyfradd gymharol uchel y dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i ddilyn rhai cyrsiau SSIE, TG neu gyrsiau mathemateg a Saesneg TGAU, ac ystod y ddarpariaeth wyneb yn wyneb ar draws ardal y bartneriaeth
- gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg y bartneriaeth

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i staff
- yn adolygu data ar berfformiad cyhoeddedig y bartneriaeth

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, swyddogion yr awdurdodau lleol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2024